▶ Dysgwyr Uchelgeisiol, Galluog

▶ Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus

Cymru a'r Byd

Gwaith Creadigol

▶ Cyfranwyr Mentrus, Creadigol

▶ Unigolion Iach, Hyderus

Byw'n Iach

www.yggllangynwyd.cymru
@yggllangynwyd

GWANWYN | 2022

LLANGYNWYD

# Llais y Llan



## DATHLU CYMREICTOD

Cafwyd llu o gyfleoedd i ddathlu ein diwylliant a'n treftadaeth yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror. I ddathlu Wythnos Adrodd Straeon, canolbwyntiwyd ar chwedlau lleol fel rhan o weithgareddau Codi Llais yr ysgol. Hefyd bu Prif Swyddogion yr ysgol yn brysur yn hyrwyddo Diwrnod Santes Dwynwen a Dydd Miwsig Cymru. Cafwyd hefyd gyfle i hyrwyddo'r dyddiau arbennig hyn fel rhan o'r gweithgareddau Codi Llais yn ystod cyfnodau cofrestru a'r gwasanaethau rhithwir. Yn ogystal, braf oedd clywed cerddoriaeth gyfoes Gymraeg yn atseinio ar hyd y coridorau i nodi achlysur Dydd Miwsig Cymru.







## STEM

Cafodd ugain o ddysgwyr Blwyddyn 9 eu dewis i fynychu sesiwn STEM. Bwriad y dydd oedd rhaglennu microbit i greu symudiadau car. Ar ôl i'r dysgwyr feistroli defnyddio'r rhaglen i greu symudiad syml, aethon nhw ymlaen i greu symudiadau mwy cymhleth. Erbyn diwedd y sesiwn roedd y dysgwyr wedi creu car "remote controlled". Roedd cyfle i gael "robot wars" i weld pwy oedd â'r sgiliau gorau o reoli eu car. Parhaodd y dysgwyr eu hymwybyddiaeth o raglennu gydag ymweliad EESW. Cafodd y dysgwyr gipolwg ar sut mae Technoleg a Gwyddoniaeth yn gweithio gyda'i gilydd i greu roboteg ynghyd â chynnyrch gwych rydyn ni'n eu defnyddio bob dydd.





Hefyd cafodd criw Dylunio Cynnyrch Blwyddyn 10 gyfle i gydweithio gyda STEM i ddylunio a chreu melinau gwynt sy'n cynhyrchu trydan. Mae hyn yn cyd-fynd â modiwl cynaladwyedd y cwrs. Roedd canmoliaeth mawr i'r dysgwyr i gyd, ond roedd Ollie a Carwyn yn fuddugol gan lwyddo i gynhyrchu'r mwyaf o 'egni glan'.



## DATBLYGU'R WOBR DUG CAEREDIN

Ers y Nadolig mae 9 dysgwr yn y chweched dosbarth wedi adeiladu ar eu llwyddiant o ennill Gwobr Efydd y Dug Caeredin gan ddechrau gweithio at y Wobr Arian. Dyma'r tro cyntaf i ni gefnogi hyn yn YGG Llangynwyd. Rydym yn falch iawn o'r dysgwyr hyn sydd yn gyson yn ymdrechu i ddatblygu agweddau personol ac i gyfrannu'n gadarnhaol i'r gymuned. Dymunwn pob lwc iddynt!

## WYTHNOS GWRTHFWLIO



Roedd yn hyfryd i weld dysgwyr a staff yn cefnogi Wythnos Gwrthfwlio gan wisgo sanau od a lliwgar i'r ysgol. Cynhaliwyd sawl gweithgaredd yn ystod cyfnodau tiwtor ac amser egwyl a chinio er mwyn hyrwyddo'r ffaith fod YGG Llangynwyd yn dweud **"Na i fwlio!"**



## GWEMINAR LLES Y 6ED DOSBARTH



Bu Dr Dominique Thompson yn cynnal gweminar ar les myfyrwyr gan gynnig cyngor a strategaethau ymarferol ar gyfer y chweched. Cafodd y myfyrwyr arweiniad wrth baratoi at arholiadau a hefyd at fywyd annibynnol yn y brifysgol. Yn dilyn y sesiwn, cafodd y staff gyfle i fod yn rhan o weminar yn edrych ar effaith y cyfnod clo ar ein myfyrwyr. Bydd strategaethau Dr Dominique Thompson yn cael eu datblygu ymhellach yng ngwaith bugeiliol y chweched dros y flwyddyn sydd i ddod. Efallai bydd gan rieni ddiddordeb i wybod mwy am ei gwaith wrth gefnogi pobl ifanc, staff a rhieni.

**Student Health Wellbeing Consultant | Buzz Consulting | Bristol UK**

## BARDD BLWYDDYN 9

Llongyfarchiadau mawr i Rhys Jones wrth i'r papur lleol (Seaside News) gyhoeddi darn o'i farddoniaeth gwreiddiol yn ei rifyn mis Ionawr 2022:

### CONSEQUENCES



Time slowly fades,
As each day is made.
All of us admire the sun,
But we've become blind to the damage we've done.
It all started here in Britain,
In the crucible of the Industrial Revolution.
We blew carbon into the sky,
And watched as the plants died.
Heatstroke, sunburns, fire,
It's all treated as a satire!
It's all a joke, not really serious,
Wrong! They're all delirious!
Bears and penguins die in heat,
While politicians take their seat.
An action must be made, and fast,
For the world will not last.
What ice will there be to find?
What snow to cool the mind?
How can we grow any corn?
In this dreadful storm.
Carbon emissions are too much,
Do we really want to drown the Dutch?
There is no 'Planet B',
To save the world, that's up to you and me.

Rhys Jones, North Cornelly




## DIWRNOD HER - SGILIAU BYWYD

Darperir pob math o weithgareddau ar ddiwrnodau her yn yr ysgol, ond dwi'n siŵr bydd sawl rhiant yn falch i weld eu mab/merch yn datblygu'r medrau i goginio pryd o fwyd cyn iddynt adael y nyth. Dyma rhai o ymdrechion Blwyddyn 13!







## CYSTADLAETHAU CODIO DI-RI

Llongyfarchiadau i ddysgwyr Blwyddyn 9 a wnaeth cymryd rhan yn Hackathon Prifysgol De Cymru ar ddiwedd mis Tachwedd. Nid oedden ni wedi ennill y wobr, ond fe wnaethom ni ddysgu llawer am sut i fod yn "het wen," sef haciwr moesol. Dysgom ni hefyd am y wahanol swyddi sydd o fewn y byd TGCh. Da iawn i bawb wnaeth cymryd rhan yn ein Hackathon gyntaf fel ysgol! Yn parhau gyda'r thema o gystadlaethau, ym mis Ragfyr fe wnaeth10 merch ym mlwyddyn 8 gymryd rhan mewn cystadleuaeth CyberFirst i ferched. Roedd y merched wedi'u gwahanu i mewn i 3 tîm gwahanol, ac allan o 7000 o ferched ar draws Cymru, roedd pedair merch o YGG Llan wedi llwyddo i gyrraedd y rownd terfynol!

Yn gynnar iawn ar ddydd Sadwrn 5ed o Chwefror aeth Mia James, Molly Jones, Mari Gibson ac Enlli Gealy i Gasnewydd i gystadlu. Anfonwyd yr athrawon allan o'r ystafelloedd cystadlu wrth i'r merched fwrw ati i gracio codau a datrys problemau er mwyn ennill cyn gymaint o bwyntiau â phosib.

Ar un adeg roedd YGG Llan yn ail, ond yn anffodus fe wnaeth timoedd eraill fwrw YGG Llan o'r tri tîm uchaf.

Dyma'r flwyddyn gyntaf i ni fel ysgol gystadlu yn Cyberfirst ac yn syth cyrhaeddon ni'r rownd terfynol! Llongyfarchiadau merched a diolch yn fawr i'r Adran TGCh am eu cefnogi.



## SEREN Y SGRIN FACH



Mae Henry Morgan Bl 12 wedi bod yn brysur yn ffilmio Casualty yn ddiweddar. Roedd e'n chwarae rol "extra" fel disgybl ysgol sydd yn cael ei saethu.

## PONTIO

Roedd yn braf ym mis Rhagfyr i ddarparu gwasanaethau pontio ar gyfer dysgwyr blwyddyn 6 yn ysgolion cynradd ein clwstwr. Diolch i Mr Tudur am wneud yr holl drefniadau ac i bawb a wnaeth ymuno ar gyfer y wasanaeth rhithiol. Dyn ni'n wir yn gobeithio y bydd cyfle gan y dysgwyr i ddod lan i'r safle cyn y Pasg iddynt brofi bywyd yn YGG Llan cyn iddynt ein cyrraedd ym mis Medi.



**Digwyddiad / Rhywbeth yn eich poeni?**

Cofiwch fod staff yr ysgol ar gael i wrando ac i gynnig cymorth. Tîm diogelu'r ysgol ydy: Mr Iwan Jones, Mrs Claire Jones, Mrs Lisa Woodrow, Mrs Non Lewis, Miss Gemma Griffiths a Mrs Lisa Lewis.



## NEWYDDION CHWARAEON

Llongyfarchiadau i Rhydian Lloyd Francis o flwyddyn 7 am ennill yr ail wobr yng nghystadleuaeth athletau dan do Cymru yn y 1500m.



Llongyfarchiadau hefyd i Hannah Marshall (BL11) a Mya Bushell (BL12) am gael eu dewis i gynrychioli carfan dan 18 y Gweilch. Mi fyddant yn cystadlu yn erbyn 4 rhanbarth arall ar draws Cymru mewn tair twrnamaint wedi drefnu gan Uned Rygbi Cymru wrth iddynt frwydro am darian y rhanbarthau a chyfle am le yn nhîm cenedlaethol dan 18 Cymru yn y gemau 6 gwlad. Pob lwc i'r ddwy.






A llongyfarchiadau i Freya Price Bl 8 a bu'n cystadlu yn 'Arena UK Spooktacular' ac allan o 204 cystadleuwyr marchogaeth, daeth Freya yn 10fed.

Llongyfarchiadau ENFAWR i Ffion Owen a Nia Morris sydd wedi cael eu dewis yng ngharfan pêl-droed Clybiau Bechgyn a Merched Cymru eleni!




Rydym yn hynod o falch o'ch llwyddiant a byddwn yn dilyn eich gemau yn agos a edrych ymlaen i chi gael eich cap eleni!




Llongyfarchiadau mawr i ddysgwyr Llangynwyd; Rhydian Lloyd Francis, (31ain) Fraser Higginson (67ain)a Lily Stephens (34ain) am berfformio'n arbennig yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth Traws gwlad 'Welsh Inter Schools Cross-Country'. Rydym ni'n falch iawn i gael dysgwyr mor frwdfrydig a thalentog i gynrychioli Tîmllan.

## LLYSGENHADON #FELMERCH

Llongyfarchiadau i Niamh (Dysgwr TGAU Addysg Gorfforol) a Gwen (Dysgwr Chwaraeon 6ed dosbarth) sydd wedi cael eu dewis gan yr Urdd i ysbrydoli a chefnogi merched ifanc ledled Cymru i fod yn actif!




## CYNGERDD Y NADOLIG

Dan amgylchiadau arferol, byddai'r ysgol wedi dod at ei gilydd i ddathlu'r Nadolig fel cynulleidfa mewn eglwys neu neuadd ysgol, ond oherwydd cyfyngiadau bu'n rhaid i ni unwaith eto ddod at ein gilydd yn rhithiol. Bu myfyrwyr o bob grŵp blwyddyn yn yr ysgol yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o berfformiadau, yn cynnwys perfformiadau lleisiol ac offerynnol, darlleniadau a chyflwyniadau dramatig. Llongyfarchiadau i'r holl fyfyrwyr a gymerodd ran, rydym yn falch iawn ohonoch chi a diolch am rhannu ysbryd yr ŵyl gyda ni yn y cyfnod cyn y Nadolig.









## CYSTADLEUAETH CREU CERDYN Y NADOLIG



Llongyfarchiadau mawr i Lucy Evans, blwyddyn 9, am ennill cystadleuaeth creu cerdyn Nadolig ar gyfer yr AS Chris Elmore. Pob blwyddyn mae dysgwyr 3-14 mlwydd oed ar draws Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn cael y cyfle i greu cerdyn Nadolig a bydd yn cael ei hanfon gan Chris Elmore. Thema y cerdyn blwyddyn yma oedd Nadolig yng Nghymru. Daeth Lucy yn gyntaf yn y cystadleuaeth a fe ddaeth Chris Elmore i'r ysgol i roi'r wobr buddugol iddi. Roedd dros 300 o ddysgwyr Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd wedi cymryd rhan ac mae pob un wedi derbyn tystysgrif.






## CEFNOGI'R BANC BWYD

I orffen tymor yr Hydref ymunodd dysgwyr a staff Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd i gefnogi elusen wrth wisgo siwmperi Nadolig ac yn dod mewn â chyfraniadau at y Banc Bwyd lleol. Roedd yn galonogol iawn i weld y bws mini yn llawn bocsys yn mynd allan i sicrhau bod pob teulu yn ein cymuned yn gallu dathlu'r Nadolig.